OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 1666 (Cy.190)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*6 Gorffennaf 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Gorffennaf 2011*
Yn dod i rym - -	*2 Awst 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2(2), 3(1), 4(3) a (4), 5(2), 7(2), 10(4)(f), 12 a 17(2) o Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 2 Awst 2011.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Ffioedd" ("*the Charges Regulations*") yw Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011(**2**); ac

ystyr "y Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol Gofal Cymdeithasol" ("*the Social Care Direct Payments Regulations*") yw Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011(**3**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio'r Rheoliadau Ffioedd

2.—(1) Diwygir y Rheoliadau Ffioedd yn unol â pharagraffau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraffau (a) a (b) o'r diffiniad o "hawlogaeth sylfaenol" ("*basic entitlement*"), yn y testun Saesneg, yn lle "is it" rhodder "it is";

(**1**) 2010 mccc 2 ("y Mesur"). *Gweler* adran 17 o'r Mesur am y diffiniad o "rheoliadau".
(**2**) O.S. 2011/962 (Cy.136).
(**3**) O.S. 2011/963 (Cy.137).